# Dogfen Fframwaith – Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru (yn gweithredu fel Llais – Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol)

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad ... 3
2 Diben y Corff Cyhoeddus... 4
3. Llywodraethu ac Atebolrwydd ... 5
   Y Cyd-destun Cyfreithiol ... 5
   Cyfrifoldeb Gweinidogol ... 5
   Atebolrwyddau a Chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Corff .. 8
   Y Bwrdd ... 10
   Presenoldeb Llywodraeth Cymru yng Nghyfarfodydd y Bwrdd ... 14
4. Gofynion Adrodd ... 15
   Gofynion Cyfrifyddu ac Adrodd Statudol ... 15
5. Trefniadau Archwilio... 16
   Archwilio Mewnol ... 16
   Archwilio Allanol... 17
   Hawl Mynediad y Tîm Partneriaeth ... 17
6. Trefniadau Rheoli... 18
7. Fframwaith Cynllunio... 18
   Cynllunio Busnes ... 18
   Cynllunio Cyllidebol... 19
8. Rheoli Perfformiad... 20
9. Cyllidebau Adnoddau Refeniw a Chyfalaf ... 20
   Cyllidebau Incwm ac Adnoddau... 21
   Benthyciadau a Chontractau a roddir gan Llais i Endidau eraill ... 22
10. Cymorth Grant a Rheoli Arian Parod... 22
   Balansau Arian Parod Yn Ystod y Flwyddyn... 23
   Llog a Enillir ar Falansau Arian Parod a Balansau Banc... 23
11. Darbodusrwydd, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd... 23
   Y Sail Dystiolaeth... 23

Adolygiad wedi'i Deilwra ........................................................................................ 23
Atodiad A........................................................................................................................ 25
Dirprwyaethau.................................................................................................................. 25
Atodiad B........................................................................................................................ 30
Amserlen Proses Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth .......................................... 30
Atodiad C ........................................................................................................................ 31
Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu..................................................................... 31

## 1. Cyflwyniad

1.1 Datblygwyd y Ddogfen Fframwaith hon gan ystyried Fframwaith Llywodraethu Enghreifftiol Llywodraeth Cymru sydd i'w ddefnyddio gyda chyrff cyhoeddus sydd wedi'u dosbarthu i'r sector llywodraeth ganolog at ddibenion y cyfrifon cenedlaethol neu sydd wedi'u dosbarthu, at ddibenion gweinyddol, naill ai fel Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Adrannau Anweinidogol, Asiantaethau Gweithredol, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg neu gorff cyhoeddus arall (ac eithrio cwmnïau sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru), y pennir eu cylch gwaith gan Weinidogion Cymru.

1.2 *Llais – Eich Llais mewn iechyd a gofal/Llais – Your voice in health and social care* (Llais) yw enw gweithredol Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru.

1.3 Mae Llais yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac mae'r Ddogfen Fframwaith hon yn nodi'r fframwaith cyffredinol y mae Llais yn gweithredu oddi mewn iddo, y telerau ac amodau y gall Gweinidogion Cymru ddarparu adnoddau i'r corff oddi tanynt a rolau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a Llais yn ogystal â'r gydberthynas rhyngddynt. Bydd hyn yn helpu i egluro a diogelu annibyniaeth weithredol Llais wrth arfer ei amcan cyffredinol i gynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

1.4 Os bydd anghysondeb rhwng unrhyw un o ddarpariaethau'r ddogfen hon a darpariaethau deddfwriaeth sy'n ymwneud â Llais y mae'r ddogfen hon yn ymwneud â nhw, darpariaethau'r ddeddfwriaeth fydd drechaf.

1.5 Mae taliadau i Llais yn amodol ar fodloni pob un o'i rwymedigaethau, fel y'u nodir yn y ddogfen hon a'r llythyr cylch gwaith, a'r cyfryw amodau a gofynion eraill ag y gall Rhan 4 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ac Atodlen 1 i'r ddeddf honno eu gosod o bryd i'w gilydd.

1.6 Mae gan Weinidogion Cymru amrywiaeth o swyddogaethau a fydd yn parhau i gynyddu a chael eu diwygio ac mae'n rhaid gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phob un o'r cyfryw swyddogaethau gan ymdrin â'r holl ystyriaethau perthnasol, gan eithrio'r holl ystyriaethau amherthnasol. Ni fydd unrhyw beth a geir yn y Ddogfen Fframwaith hon neu sy'n ymhlyg ynddi, neu sy'n codi oddi tani neu mewn cysylltiad â hi, mewn unrhyw ffordd yn tanseilio, yn atal nac yn effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru nac unrhyw un ohonynt nac yn gorfodi Gweinidogion Cymru nac unrhyw un ohonynt i arfer neu beidio ag arfer unrhyw un o'u swyddogaethau mewn ffordd benodol. Bydd unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen hon at unrhyw ddeddfwriaeth, boed yn gyfraith ddomestig, cyfraith yr UE (fel y bo'n briodol) neu gyfraith ryngwladol yn cynnwys yr holl ddiwygiadau ac

amnewidiadau ac ailddeddfiadau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth honno a fydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

1.7 Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda chymorth swyddogion yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru (gweler paragraff 3.4).

1.8 Mae copïau o'r ddogfen hon ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau dilynol wedi'u rhoi yn Llyfrgell y Senedd ac maent ar gael i'r cyhoedd ar wefan Llais.

## 2 Diben y Corff Cyhoeddus

2.1 Sefydlwyd Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru (a elwir yn Llais) o dan Rhan 4, adran 12, o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (y "**Ddeddf**"). Fel corff cyhoeddus, mae'n gweithredu fel asiant cyflawni ar ran Gweinidogion Cymru a'i rôl yw cyflawni ei gyfrifoldebau a nodir yng nghyd-destun nodau strategol Llywodraeth Cymru. Mae ei brif ddiben a'i amcanion cyffredinol fel y'u nodir yn Adrannau 13, 14, 15 ac 16 o'r Ddeddf.

2.2 Ei amcan cyffredinol yw cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (Adran 13(1) o'r Ddeddf). Er mwyn bodloni'r amcan hwnnw, rhaid i Llais geisio barn y cyhoedd, ym mha ffordd bynnag y gwêl yn briodol, mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac wrth wneud trefniadau i gydymffurfio â hynny, rhaid i Gorff Llais y Dinesydd yn benodol roi ystyriaeth i sicrhau, lle y bo'n briodol, ymgysylltu wyneb yn wyneb rhwng ei staff, neu unrhyw bersonau eraill sy'n gweithredu ar ei ran, ac unrhyw unigolion y ceisir eu barn (Adrannau 13(2) a (3) o'r Ddeddf).

2.3 Nodir swyddogaethau Llais yn Rhan 4 o'r Ddeddf. Gweler y Ddeddf am y darpariaethau llawn. Rhoddir crynodeb byr isod:

- Adran 14 – rhaid i Llais gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'i amcanion cyffredinol a'i swyddogaethau, gan baratoi a chyhoeddi datganiad ar y modd y mae'n bwriadu hyrwyddo ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau a cheisio barn y cyhoedd at ddibenion ei amcan cyffredinol;
- Adran 15 – caiff Llais gyflwyno sylwadau i awdurdod lleol neu un o gyrff y GIG ynghylch unrhyw beth y cred ei fod yn berthnasol i'r gwaith o ddarparu gwasanaeth iechyd neu ddarparu gwasanaethau cymdeithasol;
- Adran 16 – caiff Llais ddarparu cymorth (drwy gynrychiolaeth neu fel arall) i unrhyw unigolyn sy'n gwneud cwyn neu sy'n bwriadu gwneud cwyn mewn perthynas â'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu yn unol ag is-adrannau 16(2)-(9).

2.4 Fel corff cyhoeddus, prif rôl Llais yw cyflawni ei gyfrifoldebau statudol a nodir yng nghyd-destun amcanion strategol Gweinidogion Cymru.

2.5 Rhaid i Llais nodi sut y bydd yn cyflawni ei ddiben cyffredinol ac yn bodloni ei amcanion strategol yn ei gynllun busnes hirdymor (gweler para 7.2 isod). Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol rhaid i Llais, yn unol ag Atodlen 1, Rhan 7, paragraff 22(1), gyhoeddi cynllun gweithredol (blynyddol) yn nodi sut mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn.

2.6 Bydd yr amcanion strategol a'r cynllun busnes hirdymor yn parhau i fod ar waith am dymor y Llywodraeth y cânt eu pennu oddi tani ond dônt i ben os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu diddymu neu uno'r Corff neu newid ei swyddogaeth.

## 3. Llywodraethu ac Atebolrwydd

### *Y Cyd-destun Cyfreithiol*

3.1 Nodir pwerau a dyletswyddau'r Corff yn Rhan 4 o'r Ddeddf ac Atodlen 1 iddi.

### *Cyfrifoldeb Gweinidogol*

3.2 Fel y nodir ym mharagraff 1.7 uchod, mae Prif Weinidog Cymru wedi rhoi'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r Corff i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y "**Gweinidog**"). Ar y cyfan, y Gweinidog fydd yn arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Corff ac ef fydd yn atebol, yn y pen draw, i'r Senedd am weithgareddau'r Corff a'i ddefnydd o adnoddau. Nid yw'r Gweinidog yn gyfrifol am faterion gweithredol o ddydd o ddydd.

3.3 Bwrdd Llais sy'n gyfrifol am bennu polisi a chyfeiriad strategol Llais yn unol â Rhan 4, Adran 14(2) o'r Ddeddf, gan ystyried y fframwaith a bennir gan y Gweinidog fel y'i nodir yn y llythyr cylch gwaith. Bydd y Gweinidog yn cyfarfod â Chadeirydd y Corff bob blwyddyn er mwyn adolygu perfformiad a thrafod gweithgareddau presennol a gweithgareddau yn y dyfodol. Rhaid i'r Gweinidog roi sylw dyledus i'r angen i Llais barhau i fod yn rhydd i allu cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

3.4 Mae cyfrifoldebau'r Gweinidog yn cynnwys:

- Cytuno ar amcanion a nodau strategol a thargedau allweddol y Corff;
- Cytuno ar gyllideb y Corff a sicrhau'r cymeradwyaethau angenrheidiol gan y Senedd;
- Cyflawni, fel y bo'n briodol, gyfrifoldebau yn y Ddeddf megis:
    - Adran 15(2) – rhoi canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff y GIG mewn perthynas â sylwadau yr hoffai Llais eu cyflwyno iddynt;
    - Adran 19(1) – paratoi a chyhoeddi cod ymarfer ynglŷn â cheisiadau a wneir gan Llais i gael mynediad i safleoedd er mwyn ceisio barn unigolion mewn perthynas â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol a, lle y cytunwyd i roi

mynediad i'r safleoedd hyn, ymgysylltu ag unigolion ar y safleoedd hynny at y diben hwnnw.
  - Paragraff 2 a pharagraff 5, Atodlen 1 – penodi, atal dros dro a diswyddo aelodau anweithredol;
  - Paragraff 4, Atodlen 1 – telerau aelodaeth anweithredol;
  - Paragraff 9, Atodlen 1 – cymeradwyo'r prif weithredwr a benodir gan yr aelodau anweithredol;
  - Paragraff 10, Atodlen 1 – cymeradwyo telerau ac amodau o ran cydnabyddiaeth ariannol, lwfansau a phensiwn.

3.5 Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yw Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru. Mae gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu gyfrifoldebau a nodir gan Drysorlys EF ac mae'n atebol i'r Senedd (drwy'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus) a Senedd y DU (drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin) am y canlynol:

- rheoleidd-dra a phriodoldeb materion ariannol Llywodraeth Cymru;
- cadw cyfrifon priodol ar gyfer Gweinidogion Cymru;
- y defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau a neilltuwyd i'r Corff drwy bleidlais o dan Gynnig Cyllidebol Blynyddol Llywodraeth Cymru.

3.6 Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y rheolaethau ariannol a'r rheolaethau rheoli eraill a ddefnyddir ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru yn briodol ac yn ddigonol i ddiogelu arian cyhoeddus a bydd yn rhoi sylw dyledus i'r angen i Llais barhau i fod yn rhydd i allu cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

***Atebolrwyddau a Chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol***

3.7 Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru yn cael cymorth i gyflawni ei ddyletswyddau gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y mae wedi'i ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ac y mae wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am yr Is-adran y mae Tîm Partneriaeth Llais yn rhan ohoni, iddo.

3.8 Mae gan y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol gyfrifoldeb i helpu'r Prif Swyddog Cyfrifyddu i sicrhau:

a) bod y rheolaethau ariannol a'r rheolaethau rheoli eraill a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn briodol ac yn ddigonol i ddiogelu arian cyhoeddus ac, yn fwy cyffredinol, bod y rhai sy'n cael eu defnyddio gan y Corff yn cydymffurfio â gofynion priodoldeb a rheolaeth ariannol dda;
b) bod datganiad digonol o'r gydberthynas ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Corff (h.y. y ddogfen Fframwaith hon) a bod y datganiad hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd;
c) bod yr amodau sydd ynghlwm wrth yr adnoddau a'r cymorth grant a ddyfarnwyd yn cydymffurfio â'r Gyllideb a bod trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y Corff â'r amodau hynny.

3.9 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith i wneud y canlynol:

- mynd i'r afael â phroblemau sylweddol yn y Corff, gan wneud y cyfryw ymyriadau ag a ystyrir yn angenrheidiol;
- asesu, o bryd i'w gilydd, y risgiau i amcanion a gweithgareddau'r Grŵp a'r Corff;
- hysbysu'r Corff am bolisi perthnasol y Llywodraeth mewn modd amserol;
- dwyn unrhyw bryderon am weithgareddau'r Corff, sy'n gofyn am esboniad a sicrwydd y caiff camau unioni eu cymryd, i sylw Bwrdd llawn y Corff;
- dynodi Prif Weithredwr y Corff yn Swyddog Cyfrifyddu'r Corff yn unol ag Atodlen 1 i'r Ddeddf a Rhan 6, paragraff 19(1) ohoni.

3.10 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn gyfrifol am roi cyngor i'r Gweinidog ar y canlynol:

- amcanion strategol priodol i'r Corff o ystyried nodau strategol ehangach y Grŵp a dangosyddion cyflawni a pherfformiad allweddol;
- cyllideb briodol i'r Corff o ystyried blaenoriaethau gwariant cyffredinol y Grŵp
- pa mor dda y mae'r Corff yn cyflawni ei amcanion strategol o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennir gan y Gweinidog ac a yw'n cynnig gwerth am arian.

3.11 Rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol sicrhau bod trefniadau goruchwylio priodol ar waith a bydd yn rhoi sylw dyledus i'r angen i Llais barhau i fod yn rhydd i allu cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

***Tîm Partneriaeth***

3.12 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am reoli cydberthnasau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Corff o ddydd i ddydd i Bennaeth Cangen Profiad y Claf y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.13 Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr yn arwain y Tîm Partneriaeth yn Llywodraeth Cymru a bydd yn gweithio'n agos gyda Phrif Weithredwr y Corff ac yn atebol i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Hefyd, y Dirprwy Gyfarwyddwr fydd y brif ffynhonnell cyngor i Weinidogion Cymru ar gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Corff. Dylid cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd a bydd cyfle i'r ddwy ochr godi materion a thrafod meysydd gwaith a datblygiadau. Dylid pennu dyddiadau ymlaen llaw ar gyfer y flwyddyn ariannol a byddant yn cael eu trefnu gan swyddfa Llais mewn cydweithrediad â Changen Profiad y Claf.  Swyddogion a chyfarwyddwyr perthnasol, fel y bo'n briodol, sy'n mynychu'r cyfarfodydd o swyddfa Llais fel arfer. Y dirprwy gyfarwyddwr/cyfarwyddwyr perthnasol sy'n mynychu'r cyfarfodydd o Lywodraeth Cymru fel arfer, ynghyd ag aelodau priodol o ganghennau Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.14 Nodau'r Bartneriaeth yw:

- Meithrin cydberthynas a'r corff a noddir sy'n seiliedig ar gydymddiriedaeth a pharch a chyfathrebu agored a gonest.
- Sicrhau bod nodau ac amcanion strategol corff a noddir yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo amcanion strategol ehangach Llywodraeth Cymru, y nodau a'r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r camau gweithredu ar gyfer y Corff fel y'u nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+.
- Rhoi'r cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen ar y corff a noddir neu y gall ofyn amdanynt er mwyn cyflawni ei amcanion.
- Hwyluso a galluogi'r corff a'i gysylltu â'r arweinwyr polisi, y rhwydweithiau a'r gweithgorau perthnasol er mwyn iddo lywio a dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu polisi ac arferion iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Annog a hyrwyddo safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol ac atebolrwydd ariannol yn y sefydliad er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y sail statudol y mae Llais wedi'i sefydlu arni. Rhaid i'r Tîm Partneriaeth barchu'r angen i Llais weithredu'n annibynnol er mwyn arfer ei swyddogaethau statudol yn effeithiol. Felly, ni ddylai'r Tîm Partneriaeth geisio dylanwadu ar benderfyniadau Llais, gan gynnwys arfer swyddogaethau statudol, cynnwys adroddiadau sydd i'w cyhoeddi na phenderfyniadau cyllidebol, ac eithrio er mwyn darparu'r wybodaeth ffeithiol a'r cymorth angenrheidiol. Mae'n ofynnol i'r Tîm Partneriaeth sicrhau cydbwysedd rhwng goruchwylio a chaniatáu i Llais weithredu'n annibynnol o ddydd i ddydd, fel y bwriadwyd wrth sefydlu'r corff fel sefydliad hyd braich. Mae angen iddo sicrhau bod y gydberthynas yn un effeithiol, gyda'r naill bartner yn galluogi ac yn helpu'r llall i gyflawni amcanion Gweinidogol ac amcanion strategol y Corff. Mae angen i'r Tîm Partneriaeth a Llais hefyd sicrhau eu bod yn rhannu gwybodaeth ac arferion gorau mewn ffordd berthnasol ac amserol a'u bod yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio'n effeithiol.

3.15 Y pwynt cyswllt arferol ar gyfer y Corff wrth ddelio â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â nawdd/partneriaeth yw Pennaeth Profiad y Claf yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### *Atebolrwyddau a Chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Corff*

3.16 Y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, sy'n bersonol gyfrifol am sicrhau bod yr arian cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdano yn cael ei warchod yn briodol; am weithrediadau'r Corff a'r ffordd y mae'n cael ei reoli o ddydd i ddydd; ac am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion *"Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*'.

3.17 Gall y Swyddog Cyfrifyddu gael cymorth i gyflawni ei rôl gan gyflogeion y Corff. Caiff y Swyddog Cyfrifyddu ddirprwyo'r gwaith o weinyddu ei gyfrifoldebau i'r cyflogeion hynny ond mae'n dal i fod yn gyfrifol ac yn atebol yn y pen draw o dan y ddogfen Fframwaith hon a Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu.

3.18 Rhaid i'r Bwrdd fod yn llwyr ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd wedi'u gosod ar y Prif Swyddog Gweithredol fel y Swyddog Cyfrifyddu, a'u hystyried.

3.19 Ceir rhagor o fanylion am gyfrifoldebau penodol Swyddog Cyfrifyddu'r Corff, gan gynnwys ei atebolrwydd i'r Senedd, Llywodraeth Cymru a Bwrdd y Corff, ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, y bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Ychwanegol wedi'i anfon at y Swyddog Cyfrifyddu (ynghyd â chopi at Gadeirydd Bwrdd Llais). Atodir y Memorandwm yn **Atodiad C** er mwyn cyfeirio ato.

***Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr***

3.20 Penodir Prif Weithredwr y Corff gan aelodau anweithredol Llais ac fe'i cyflogir gan Llais, gyda chymeradwyaeth y Gweinidog (Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 9.). Y Prif Weithredwr yw prif gynghorydd y Bwrdd ar gyflawni ei swyddogaethau ac mae'n atebol i'r Bwrdd. Rôl y Prif Weithredwr yw darparu arweinyddiaeth weithredol i'r Bwrdd a sicrhau y caiff nodau ac amcanion y Bwrdd, swyddogaethau'r Corff a thargedau eu cyflawni. Dylai'r Swyddog Cyfrifyddu mewn sefydliad gael ei gefnogi gan Fwrdd sydd wedi'i strwythuro yn unol â'r Cod Llywodraethiant Corfforaethol ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganol, fel y bo'n gymwys.

3.21 Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i Gadeirydd Llais ac mae'n gyfrifol am y canlynol:

- rhoi cyngor i'r Bwrdd ar gyflawni ei gyfrifoldebau fel y'u nodir yn y ddogfen Fframwaith hon, mewn cyfraith berthnasol, yn llythyr cylch gwaith y Gweinidog neu mewn gohebiaeth arall â'r Corff; ac unrhyw ganllawiau eraill a all gael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd;
- rhoi cyngor i'r bwrdd ar berfformiad y Corff yn erbyn ei nodau a'i amcanion;
- sicrhau bod y bwrdd yn rhoi sylw llawn i ystyriaethau ariannol ar bob cam yn y broses o ddod i'w benderfyniadau a'u rhoi ar waith a bod technegau arfarnu ariannol addas yn cael eu dilyn;
- sicrhau bod system dda o lywodraethu corfforaethol a sicrwydd ar waith yn unol ag egwyddorion y Cod Llywodraethiant Corfforaethol ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganol, fel y bo'n gymwys
- sicrhau bod system rheoli risg yn cael ei chynnal er mwyn llywio penderfyniadau ar gynlluniau ariannol a gweithredol a chynorthwyo i gyflawni amcanion a thargedau;
- sicrhau bod trefniadau rheoli mewnol a rheolaethau ariannol cadarn yn cael eu cyflwyno, eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys mesurau i ddiogelu rhag twyll a dwyn (y bydd y cyfryw fesurau yn cynnwys system gynhwysfawr o awdurdodau mewnol dirprwyedig);
- sicrhau bod gweithdrefnau ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion am y Corff;
- sicrhau bod polisïau rheoli Adnoddau Dynol/y Gweithlu ar waith a bod y rhain yn cael eu cynnal ac ar gael yn hawdd i bob aelod o staff;

- cymryd camau fel y bo'n briodol yn unol â thelerau Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, os bydd y Bwrdd neu ei Gadeirydd yn ystyried cam gweithredu sy'n cynnwys trafodiad y mae'r Prif Weithredwr o'r farn y byddai'n mynd yn groes i ofynion priodoldeb neu reoleidd-dra; nad yw'n waith gweinyddu darbodus nac economaidd nac yn effeithlon nac yn effeithiol; bod amheuaeth ynghylch a yw'n ddichonadwy; neu ei fod yn anfoesegol.

3.22 Rhaid i gydraddoldeb a gwaith teg fod wrth wraidd y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac, felly, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cyrff a ariennir ganddi gynnal safonau cyflogaeth foesegol.

3.23 Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am benderfyniadau yn ymwneud â staffio yn y Corff, lle bo awdurdod wedi'i ddirprwyo gan y Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys polisïau yn ymdrin â thelerau ac amodau staff; cynnig cynllun pensiwn; a sicrhau bod arferion gwerthuso swyddi a recriwtio cadarn, priodol a theg yn cael eu dilyn. Fodd bynnag, ni chaiff y Corff gytuno ar delerau ac amodau mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol, lwfansau na phensiwn heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru a dylid hysbysu Llywodraeth Cymru am gynigion penodol ar gyfer newid, gan gynnwys trefniadau ar gyfer dileu swyddi – gweler **Atodiad A** am fanylion.

3.24 Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cydnabyddiaeth ariannol yn cyd-fynd ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyflogau'r sector cyhoeddus. Dylid hysbysu Pennaeth Cyflogau a Chydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau i gyflogau – gweler **Atodiad A**. Rhaid i Weinidogion gytuno ar unrhyw gynigion i wneud newidiadau y tu allan i'r egwyddorion ynglŷn â chyflogau.

3.25 Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am ddelio ag achosion sy'n ymwneud ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

### *Y Bwrdd*

3.26 Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau Llais fel y nodir ym mharagraff 2(1), Atodlen 1. Aelodau Llais yw:

a) person a benodir gan Weinidogion Cymru yn aelod cadeirio'r Corff;
b) person a benodir gan Weinidogion Cymru yn is-gadeirydd i'r aelod cadeirio;
c) o leiaf 6 ond heb fod yn fwy nag 8 person arall a benodir gan Weinidogion Cymru;
d) ei brif weithredwr;
e) pan gydnabyddir un undeb llafur neu fwy gan y Bwrdd, person a benodir yn aelod cyswllt y Corff (yn unol â pharagraff 6, Atodlen 1). Nid oes gan yr aelod cyswllt unrhyw hawliau pleidleisio.

Cyfeirir at yr aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru gyda'i gilydd fel "aelodau anweithredol". Fe'u penodir yn unol â chod ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

3.27 Mae aelodau Llais gyda'i gilydd yn ffurfio'r Bwrdd. Rhaid i'r bwrdd ymddwyn mewn ffordd agored a thryloyw a chyhoeddi ei aelodau, ei agendâu a'i gofnodion ar ei wefan. O 1 Ebrill 2023 ymlaen, bydd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 a bydd yn sicrhau bod trefniadau ar waith i gydymffurfio â'r Ddeddf.

3.28 Rôl y Bwrdd yw:

- arwain y Corff yn effeithiol, gan ddiffinio a datblygu cyfeiriad strategol a phennu amcanion strategol heriol;
- hyrwyddo safonau uchel o ran rheoli cyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- sicrhau y caiff gweithgareddau'r Bwrdd eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol; monitro perfformiad er mwyn sicrhau bod y Corff yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad yn llawn;
- hyrwyddo egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

3.29 Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rhoi sicrwydd ynglŷn â rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Rhaid iddo sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gadeirir gan aelod anweithredol (ond nid y Cadeirydd) er mwyn rhoi cyngor annibynnol iddo. Rhaid i'r bwrdd sicrhau ei hun bod y systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg yn effeithiol.

3.30 Nid yw cyfrifoldeb personol y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu i sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian yn lleihau mewn unrhyw ffordd gyfrifoldeb aelodau'r Bwrdd, y mae dyletswydd ar bob un ohonynt i ymddwyn mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau cyllid cyhoeddus uchel a sicrhau bod gweithgareddau'r Corff yn cael eu cynnal mewn modd effeithlon ac effeithiol. Ni ddylai'r Bwrdd roi unrhyw gyfarwyddiadau i'r Prif Weithredwr sy'n gwrthdaro â'i ddyletswyddau fel y Swyddog Cyfrifyddu.

3.31 Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y canlynol:

- pennu a datblygu nodau ac amcanion strategol y Corff yn unol â'i ddiben cyffredinol ac o fewn y fframwaith polisi a bennir gan Weinidogion Cymru a'r fframwaith adnoddau a bennir gan y Gweinidog;
- sicrhau bod y Gweinidog yn cael gwybodaeth lawn am unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar gyfeiriad strategol y sefydliad neu ar b'un a ellir

cyflawni ei dargedau, ac am gamau y mae angen eu cymryd i ddelio â'r cyfryw newidiadau;
- sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus;
- sicrhau bod y Corff yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod ac unrhyw awdurdod dirprwyedig y cytunwyd arno â'r Tîm Partneriaeth, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus;
- wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau bod y Corff yn ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru;
- sicrhau ei fod yn cael gwybodaeth ariannol am y ffordd y caiff y Corff ei reoli, a'i bod yn adolygu'r wybodaeth honno'n rheolaidd;
- sicrhau bod y Gweinidog yn cael ei hysbysu mewn modd amserol am unrhyw bryderon am weithgareddau'r Corff, gan gynnwys gweithgareddau a allai effeithio ar faint o adnoddau y bydd eu hangen yn y dyfodol, ac unrhyw newidiadau i bolisïau neu arferion y gallai fod iddynt oblygiadau ariannol eang;
- sicrhau bod y Gweinidog yn cael ei hysbysu am flaenoriaethau allweddol, pryderon, risgiau a chynlluniau sy'n effeithio ar ei bortffolio mewn perthynas ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- cymryd camau unioni priodol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu newidiadau y mae iddynt oblygiadau ariannol eang, a rhoi sicrwydd cadarnhaol i'r Gweinidog drwy'r Tîm Partneriaeth am y cyfryw bryderon neu newidiadau;
- dangos safonau llywodraethu corfforaethol uchel bob amser, gan gynnwys drwy ddefnyddio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg er mwyn helpu'r Bwrdd i fynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol a risgiau eraill;
- penodi Prif Weithredwr, ar ôl cael cymeradwyaeth ysgrifenedig y Gweinidog ymlaen llaw. Gweler **Atodiad A** am ragor o wybodaeth.

3.32 Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am y canlynol:

- enwebu aelod gweithredol o'r Bwrdd i weithredu fel yr Uwch-Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO) – Gan mai'r Prif Weithredwr yw'r unig aelod gweithredol o'r Bwrdd, ef fydd yn cyflawni'r rôl hon. Yr Uwch-Swyddog Risg Gwybodaeth sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff risgiau ac asedau gwybodaeth yn y sefydliad eu rheoli fel proses fusnes yn hytrach na mater technegol.Bydd yr Uwch-Swyddog Risg Gwybodaeth yn sicrhau bod risgiau gwybodaeth sy'n effeithio ar amcanion busnes yn cael eu dwyn i sylw'r Bwrdd. Caiff y Prif Weithredwr ddirprwyo cyfrifoldebau'r Uwch-Swyddog Risg Gwybodaeth yn weithredol i uwch-swyddog gweithredol nad yw'n aelod o'r Bwrdd drwy lythyrau dirprwyo ffurfiol, ond bydd yn dal i fod yn atebol ar lefel y Bwrdd;
- cydymffurfio â Safon Swyddogaethol y Llywodraeth Govs 007

- trefnu i Brawf Iechyd Diogelwch Adrannol Swyddfa'r Cabinet gael ei gwblhau bob blwyddyn er mwyn iddo gael ei ddychwelyd i'r Uwch-Swyddog Risg Gwybodaeth yn Llywodraeth Cymru;
- sicrhau y caiff trefniadau diogelwch eu hardystio gan gorff annibynnol i safonau Cyber Essential Plus ac IASME.

3.33 I'r graddau a ganiateir gan y Ddeddf, caiff y Bwrdd ddirprwyo'r cyfrifoldeb am weinyddu'r gwaith o reoli materion o ddydd i ddydd i aelodau o staff ond bydd yn parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol yn y pen draw am yr holl faterion hynny. Rhaid i'r Corff gynnal rhestr o faterion a gedwir yn ôl i'w Fwrdd benderfynu arnynt, yn ogystal â chynllun dirprwyo a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

***Cyfrifoldebau Aelodau Unigol o'r Bwrdd***

3.34 Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, rhaid i aelodau'r Bwrdd wneud y canlynol:

- cydymffurfio â chod ymddygiad y Corff bob amser a'r holl reolau cymwys sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus a gwrthdaro buddiannau;
- peidio â chamddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn ystod eu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn sicrhau mantais bersonol na gwleidyddol, na cheisio defnyddio'r cyfle a gynigir gan wasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo eu buddiannau personol na buddiannau personau na sefydliadau y mae ganddynt gydberthynas â nhw;
- cydymffurfio â rheolau ar dderbyn rhoddion a lletygarwch;
- gweithredu'n ddidwyll er budd y Corff bob amser.

***Y Cadeirydd***

3.35 Mae'r Cadeirydd yn atebol i'r Gweinidog a gall gael ei ddwyn i gyfrif hefyd gan y Senedd. Yn ystod busnes arferol, rhaid i unrhyw gyfathrebu rhwng y Bwrdd a'r Gweinidog ddigwydd drwy'r Cadeirydd. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau y caiff aelodau eraill y Bwrdd wybod am unrhyw gyfathrebu o'r fath.

3.36 Y Cadeirydd fydd yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a chamau gweithredu'r Bwrdd yn cefnogi polisïau strategol ehangach y Gweinidog a bod busnes y Corff yn cael ei gynnal mewn ffordd onest. Lle y bo'n briodol, rhaid i'r Cadeirydd wneud trefniadau i gyfleu a lledaenu'r polisïau a'r camau gweithredu hyn i bob rhan o'r Corff.

3.37 Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldebau arwain penodol am y canlynol:

- llunio strategaethau'r bwrdd;
- sicrhau bod y Bwrdd, wrth ddod i benderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth briodol i ofynion rheoli statudol ac ariannol a'r holl ganllawiau perthnasol, gan gynnwys canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru;

- hyrwyddo'r defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill;
- sicrhau safonau uchel o ran rheoleidd-dra, priodoldeb a llywodraethu;
- cyfleu barn y bwrdd i'r cyhoedd.

3.38 Rhaid i'r Cadeirydd hefyd wneud y canlynol:

- sicrhau bod holl aelodau'r bwrdd yn cael eu briffio'n llawn ar delerau eu penodiad ac ar eu dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys ar ofynion cyrff yn y sector cyhoeddus o ran rheolaeth ariannol ac adrodd, ac ar y gwahaniaethau a allai fodoli rhwng arferion yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus;
- sicrhau bod gan y Bwrdd gydbwysedd sgiliau sy'n briodol i gyfarwyddo busnes y Corff;
- mewn achosion lle y caiff penodiadau i swyddi gwag ar y Bwrdd eu gwneud gan y Gweinidog, rhoi cyngor i'r Gweinidog ar anghenion y Corff;
- asesu perfformiad aelodau unigol o'r Bwrdd yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt â'r Tîm Partneriaeth a'r Uned Cyrff Cyhoeddus;
- sicrhau bod cod ymddygiad priodol ar gyfer aelodau'r Bwrdd ar waith, gan gynnwys rheolau a chanllawiau ar fuddiannau a gwrthdaro buddiannau aelodau'r Bwrdd.

### *Presenoldeb Llywodraeth Cymru yng Nghyfarfodydd y Bwrdd*

3.38 Er na ddylent eu mynychu fel mater o'r drefn, mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r hawl i'w swyddogion fynd i gyfarfodydd Bwrdd y Corff fel cynghorwyr a/neu fel arsylwyr. Gall y bwrdd hefyd eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd er mwyn rhoi cyngor neu wybodaeth benodol.

3.39 Rhaid i'r Corff ddarparu agendâu a phapurau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd i'w Dîm Partneriaeth ymlaen llaw er mwyn iddo allu ystyried a fydd swyddogion yn dymuno mynd i'r cyfarfodydd a chyfrannu at drafodaethau. Dylid darparu papurau i'r Tîm Partneriaeth ar yr un pryd ag y cânt eu darparu i aelodau'r Bwrdd. Dylai'r Corff hefyd dynnu sylw'r Tîm Partneriaeth at unrhyw faterion newydd, dadleuol neu anodd neu unrhyw faterion y bydd iddynt sgil-effeithiau yr ymdrinnir â nhw yng nghyfarfod y Bwrdd.

3.40 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn chwarae unrhyw ran ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd. Pan fydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd, dylai fod cytundeb ffurfiol yn nodi eu rôl a ddatblygwyd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## 4. Gofynion Adrodd

### *Gofynion Cyfrifyddu ac Adrodd Statudol*

4.1 Nodir y gofynion cyfrifyddu ac adrodd statudol yn Rhannau 6 a 7 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

*Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon*

4.2 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, bydd y Corff, yn unol â pharagraff 23, Atodlen 1, yn cyhoeddi adroddiad ar y ffordd y caiff ei swyddogaethau eu harfer yn ystod y flwyddyn, a bydd yn anfon copi o'i adroddiad (yr adroddiad blynyddol) at Weinidogion Cymru ac yn gosod copi gerbron y Senedd.

4.3 Caiff yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, gan gynnwys Datganiad Llywodraethu, eu paratoi yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, y statudau perthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth.

4.4 Er mwyn cefnogi'r gwaith o baratoi cyfrifon, rhaid cynnal cofrestrau o'r canlynol:

- Cofrestr o Ddatganiadau ac achosion posibl o wrthdaro buddiannau ar gyfer Aelodau'r Bwrdd
- Rhoddion a gafwyd ac a roddwyd;
- Lletygarwch a gafwyd ac a gynigiwyd;
- Colledion a thaliadau arbennig fel y'u disgrifir yn *"Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

Mae'r cofrestrau hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r gofynion datgelu a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* gael eu bodloni.

4.5 Rhaid i ddogfen yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon wneud y canlynol:

- amlinellu prif weithgareddau a pherfformiad y corff yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol;
- adrodd ar berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a phethau eraill i'w cyflawni;
- adrodd ar weithgareddau unrhyw gyrff corfforedig sydd o dan ei reolaeth.

*Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon*

4.6 Yn unol â pharagraff 20(3), Atodlen 1, rhaid i'r Corff gyflwyno'r cyfrifon drafft i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Gweinidogion Cymru erbyn 31 Awst ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.

4.7 Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod y cyfrifon archwiliedig gerbron y Senedd fel sy'n ofynnol gan baragraff 21, Atodlen 1. Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cysylltu â swyddogion a'r Corff er mwyn cydgysylltu'r broses o osod yr adroddiad blynyddol gerbron y Senedd.  Rhaid i ddau (2) gopi o'r cyfrifon archwiliedig wedi'u llofnodi gael eu hanfon at y Tîm Partneriaeth ar ffurf copi caled.

4.8 Ar ôl ei gyflwyno i'r Gweinidog a'r Senedd, dylai'r Corff gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon er mwyn i'r Senedd, cleientiaid eraill a'r cyhoedd asesu a yw wedi llwyddo i gyflawni ei dargedau.

4.9 Bydd hefyd yn ofynnol i Gyrff ddarparu gwybodaeth benodol am y cyfrifon ar gyfer proses Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan ac, o bosibl, ar gyfer Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Caiff amseriad a chwmpas yr wybodaeth sydd ei hangen eu cyfleu bob blwyddyn gan Swyddogaeth Cyllid Llywodraeth Cymru drwy rwydwaith Penaethiaid Adnoddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

## 5. Trefniadau Archwilio

### *Archwilio Mewnol*

5.1 Rhaid i'r Corff sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o'i Fwrdd i roi cyngor i'w Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd ar ddigonolrwydd trefniadau yn y sefydliad ar gyfer materion sy'n ymwneud ag archwilio mewnol, archwilio allanol a llywodraethu corfforaethol. Wrth sefydlu ei Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, dylai'r corff gyfeirio at y canllawiau a nodir yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd, a bydd yn atebol iddo.

5.2 Rhaid i'r Corff wneud y canlynol:

- sefydlu a chynnal trefniadau ar gyfer archwilio mewnol yn unol â'r amcanion, y safonau a'r arferion a ddisgrifir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus: https://www.gov.uk/government/publications/public-sector-internal-audit-standards
- os bydd y swyddogaeth archwilio yn cael ei darparu'n fewnol, sicrhau y caiff trefniadau eu gwneud ar gyfer cynnal adolygiadau ansawdd allanol o leiaf unwaith bob pum (5) mlynedd ac yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a all ddibynnu ar yr adolygiadau hynny i roi sicrwydd ynglŷn ag ansawdd archwiliad mewnol y Corff;

- ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Swyddog Cyfrifyddu a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, cyflwyno'r strategaeth archwilio, cynlluniau archwilio cyfnodol a'r adroddiad archwilio blynyddol, gan gynnwys barn Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am weithgarwch rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu, i'r tîm partneriaeth bob blwyddyn;
- hysbysu'r Tîm Partneriaeth cyn gynted â phosibl am unrhyw newidiadau i gylch gorchwyl ei drefniadau archwilio mewnol a/neu ei Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

5.3 Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- yn unol â threfniadau goruchwylio y cytunwyd arnynt, asesu effeithiolrwydd trefniadau archwilio mewnol y Corff drwy graffu ar ei gynlluniau ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol, adroddiadau ar weithgarwch blaenorol a'i adroddiadau sicrwydd blynyddol (h.y. barn Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Corff am ei weithgarwch rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu);
- At hynny, bydd gan Lywodraeth Cymru yr hawl i weld pob dogfen a baratoir gan archwilydd mewnol y Corff, gan gynnwys pan fo'r gwasanaeth wedi'i osod ar gontract allanol.

## *Archwilio Allanol*

5.4 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y Corff. Nodir hawliau statudol yr Archwilydd Cyffredinol i weld dogfennau a gwybodaeth yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

5.5 Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau i ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae'r Corff wedi defnyddio ei adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau a chaiff wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth gyflawni swyddogaethau cyrff, ac astudiaethau eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau. At ddibenion yr archwiliadau hyn, yn ogystal â'r archwiliad ariannol statudol, mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawl statudol i weld dogfennau a gwybodaeth a ddelir gan bersonau perthnasol.

## *Hawl Mynediad y Tîm Partneriaeth*

5.6 Rhaid i'r Corff, heb godi tâl, ganiatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion o Lywodraeth Cymru, ar unrhyw adeg resymol a chan roi rhybudd rhesymol i'r Corff (Noder: o dan amgylchiadau eithriadol, megis atal neu ganfod twyll, efallai na fydd yn ymarferol rhoi rhybudd rhesymol) ymweld â'i safle a/neu arolygu unrhyw rai o'i weithgareddau a/neu archwilio a gwneud copïau o'i gyfrifon ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill o'r fath, ni waeth sut y cânt eu storio, a all, ym marn resymol y cyfryw swyddog, ymwneud mewn unrhyw ffordd â'ch defnydd o'r cyllid a ddarparwyd. Nid yw'r ymgymeriad hwn yn effeithio ar unrhyw

hawliau a phwerau statudol eraill y gall Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru neu'r Comisiwn Ewropeaidd neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r uchod, fel y bo'n briodol, eu harddel, ac mae'n ddarostyngedig i unrhyw gyfryw hawliau a phwerau.

## 6. Trefniadau Rheoli

6.1 Oni chytunir fel arall ymlaen llaw yn ysgrifenedig gan y Tîm Partneriaeth, rhaid i'r Corff ddilyn yr egwyddorion, y rheolau, y canllawiau a'r cyngor yn *“Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru”* a'r Ddogfen Fframwaith hon bob amser. Rhaid i'r Corff gyfeirio unrhyw anawsterau neu geisiadau am eithriadau i'r Tîm Partneriaeth yn y lle cyntaf.

6.2 O bryd i'w gilydd, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am wybodaeth a data penodol gan y Corff ac mae'n ofynnol i'r Corff ddarparu'r cyfryw wybodaeth sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'n arfer ei swyddogaethau. Gall cyngor a chanllawiau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu hystyried hefyd gael eu cyhoeddi gan Ysgrifennydd Parhaol ac Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Thrysorlys EF.

## 7. Fframwaith Cynllunio

### *Cynllunio Busnes*

*Llythyrau Cylch Gwaith*

7.1 Ar y dyddiad y sefydlir Llais yn swyddogol ac ar ddechrau tymor y Llywodraeth, bydd y Gweinidog sy'n noddi yn rhoi llythyr cylch gwaith i'r Corff a fydd yn nodi'r blaenoriaethau yr hoffai weld Llais yn cyfrannu atynt yn ystod tymor y Llywodraeth. Bydd y trefniant hwn yn parhau mewn grym am dymor y Llywodraeth, er y gellir diwygio'r cylch gwaith drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig, er enghraifft os bydd blaenoriaethau'r Gweinidog yn newid. Nodir proses cylch Tymor y Llywodraeth yn **Atodiad B**.

*Cynlluniau Busnes*

7.2 O fewn deuddeg (12) mis i gael y llythyr cylch gwaith cyntaf ac o fewn tri (3) mis i gael llythyr cylch gwaith dilynol, rhaid i'r Corff gyflwyno cynllun busnes hirdymor i'r Gweinidog yn nodi sut mae'n bwriadu cyflawni ei amcanion strategol. Rhaid i'r cynllun terfynol, y cytunwyd arno gan y Gweinidog, adlewyrchu nodau ac amcanion strategol y Corff a rhaid iddo barhau i fod ar waith am dymor cyfan y Llywodraeth, oni fydd y cylch gwaith yn newid fel y nodwyd ym mharagraff 7.1.

7.3 Ar ddiwedd tymor y Llywodraeth, bydd y cynllun busnes yn parhau i fod ar waith nes i'r Llywodraeth newydd bennu ei hagenda strategol a rhoi llythyr cylch gwaith newydd i Llais.

*Cynlluniau Gweithredol (Blynyddol)*

7.4 Bob blwyddyn ariannol, yng ngoleuni'r penderfyniadau gan Weinidogion Cymru ynghylch dyrannu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, bydd y Gweinidog yn anfon datganiad ffurfiol o'i ddarpariaeth gyllidebol i'r Corff yn unol â pharagraff 7.11 isod.

7.5 Mewn ymateb i hyn, ac yn unol â pharagraff 22 o'r Ddeddf ac Atodlen 1 iddi, bydd y Corff yn llunio cynllun gweithredol blynyddol yn nodi lefel y gwasanaeth i'w sicrhau mewn meysydd allweddol a'r wybodaeth am berfformiad ac allbwn i'w chasglu er mwyn monitro cynnydd. Caiff y cynllun gweithredol ei lywio gan lythyr cylch gwaith y Gweinidog a'r cyllid y cadarnhawyd ei fod ar gael. Mater i'r Bwrdd fydd penderfynu ar union gynnwys y cynllun hwn. Fodd bynnag, os bydd y Gweinidog neu'r Corff yn dymuno hynny, gellir ceisio cymeradwyaeth y Gweinidog ar gyfer y cynllun gweithredol drwy'r Tîm Partneriaeth.

7.6 Rhaid i'r cynllun gweithredol adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a rhaid i'r Corff nodi sut y bydd yn defnyddio'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf a sut y bydd yn cyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant.

7.7 Cyn cyhoeddi cynllun gweithredol, rhaid i Llais ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag y gwêl yn briodol ynghylch ei amcanion a'i flaenoriaethau arfaethedig.

*Cyhoeddi Cynlluniau*

7.8 Rhaid i'r Corff sicrhau bod y cynlluniau busnes a gweithredol hirdymor ar gael i'r cyhoedd.

## *Cynllunio Cyllidebol*

7.9 Caiff trefniadau cynllunio cyllidebol Llywodraeth Cymru eu llywodraethu gan ofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog y Senedd.

7.10 Rhaid i'r Corff gydweithio â'r Tîm Partneriaeth drwy ddarparu'r holl gymorth a gwybodaeth angenrheidiol i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi fwrw ymlaen â'i phenderfyniadau cynllunio cyllidebol.

7.11 Bydd y Gweinidog yn cadarnhau'r gyllideb refeniw net a'r gyllideb adnoddau cyfalaf a faint o gyllid cymorth grant (arian parod) a roddir i'r Corff ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Fel rhan o ddyraniad y gyllideb adnoddau net, bydd y Gweinidog hefyd yn cadarnhau'r incwm y caiff y Corff ei gadw er mwyn ariannu

gweithgarwch ychwanegol yn y flwyddyn ariannol. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd o fewn mis i'r dyddiad y cytunodd y Senedd ar y gyllideb derfynol. Rhaid i unrhyw gyllid ar gyfer y flwyddyn dan sylw gael ei awdurdodi gan y Senedd yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol.

7.12 Lle y bo'n bosibl, bydd y Gweinidog hefyd yn darparu cyllidebau dangosol ar gyfer blynyddoedd dilynol er mwyn llywio gwaith cynllunio cyllidebol. Fodd bynnag, gall manylion cyllidebau ar gyfer blynyddoedd dangosol ostwng neu gynyddu yn ôl blaenoriaethau'r Llywodraeth, newidiadau i bortffolios Gweinidogion, amrywiadau mewn cyllidebau a/neu bryderon ynghylch effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd y Corff. Efallai y bydd angen i'r Corff fodelu gwahanol opsiynau ar gyfer gweithgarwch yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.

7.13 Wrth bennu cyllidebau adnoddau a chyfalaf a gofynion o ran cymorth grant, ystyried lefelau'r cronfeydd wrth gefn (os oes rhai) a ddelir gan y Corff a'r incwm a ddisgwylir o ffynonellau eraill.

## 8. Rheoli Perfformiad

8.1 Rhaid i'r Corff weithredu systemau rheoli, gwybodaeth a chyfrifyddu sy'n ei alluogi i adolygu ei berfformiad ariannol ac anariannol yn erbyn ei amcanion mewn modd amserol ac effeithiol. Rhaid iddo hysbysu'r Tîm Partneriaeth am unrhyw newidiadau sy'n ei gwneud yn fwy neu'n llai anodd cyflawni'r amcanion.

8.2 Yn unol â'r gofynion adrodd a nodir yn y trefniadau goruchwylio ar gyfer y Corff, rhaid rhannu dogfennau sicrwydd allweddol, dangosyddion perfformiad allweddol (DPAau), manylion gwariant gwirioneddol a rhagamcanol, a gwybodaeth fonitro arall y cytunwyd arni, â'r tîm partneriaeth ar adegau y cytunwyd arnynt er mwyn dangos bod cerrig milltir a thargedau yn cael eu cyrraedd a bod DPAau o fewn lefelau derbyniol.

8.3 Bydd y Cadeirydd hefyd yn cyfarfod â'r Gweinidog sy'n noddi o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn trafod cynnydd.

8.4 Mae'n ddyletswydd ar y Tîm Partneriaeth i asesu'r sicrwydd risg sydd ar gael iddo o bryd i'w gilydd a gall ddiwygio lefel yr oruchwyliaeth yn unol â hynny.

## 9. Cyllidebau Adnoddau Refeniw a Chyfalaf

9.1 Rhaid i wariant yn erbyn cyllidebau adnoddau refeniw a chyfalaf gael ei gofnodi a'i fonitro gan y Corff yn unol â Chanllawiau Cyllidebu Cyfunol Trysorlys EF. Dyma'r terfynau gwariant net ar gyfer y Corff ym mhob blwyddyn – gan gynnwys unrhyw ddefnydd o adnoddau y darparwyd ar ei gyfer yn y gyllideb – a rhaid

cydymffurfio â nhw. Ni ddylid neilltuo gwariant net uwchlaw'r terfynau hyn nes y bydd y Tîm Partneriaeth yn cytuno ar gyllideb ddiwygiedig i dalu am y gwariant hwnnw yn ysgrifenedig neu oni fydd yn gwneud hynny.

9.2 Ni chaiff y Corff dorri elfennau cydrannol y cyllidebau adnoddau refeniw a chyfalaf. Rhaid ceisio cymeradwyaeth ymlaen llaw ac yn ysgrifenedig os bydd y Corff am wario mwy mewn un categori a llai mewn categori arall.

9.3 Mae cyllidebau adnoddau refeniw a chyfalaf yn cwmpasu'r holl incwm a gwariant gan y Corff, gan gynnwys grantiau wedi'u clustnodi a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac incwm a geir o ffynonellau eraill.

9.4 Os caiff y Corff ei ddynodi mewn Gorchymyn o dan adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd y cyllidebau adnoddau net, y terfyn incwm a gedwir a'r cymorth grant (arian parod) a bennir ar gyfer y flwyddyn dan sylw, yn destun pleidlais fel rhan o Gynnig Cyllidebol y Senedd. Os na chaiff y Corff ei ddynodi, dim ond y cymorth grant fydd yn destun pleidlais fel rhan o'r Cynnig Cyllidebol.

### *Cyllidebau Incwm ac Adnoddau*

9.5 Caiff yr holl ffrydiau incwm y cyfeirir atynt yn y paragraffau canlynol eu trin fel arian cyhoeddus ac mae gofynion y ddogfen hon yn gymwys iddynt i'r un graddau.

9.6 Hyd y gellir, rhaid i'r Corff geisio cael cymaint o'i incwm â phosibl o ffynonellau heblaw'r sector cyhoeddus pan fo hyn yn gyson â'i swyddogaethau (ac yn unol â'r cynlluniau busnes a gweithredol). Caiff gadw incwm hyd at y lefel a nodir yn y llythyr cyllido a geir, er enghraifft, o enillion o werthu tir ac adeiladau ac asedau eraill, grantiau a roddir gan yr UE, grantiau a roddir drwy gronfeydd y loteri, unrhyw enillion eraill o weithgareddau masnachol y Corff a'r rhai sy'n deillio o werthu gwasanaethau mewn marchnadoedd ehangach. Rhaid i'r cyfryw weithgarwch gael ei gynnal yn unol â thelerau “Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru” a'r Ddogfen Fframwaith hon.

9.7 Pennir terfyn yr incwm y gall y Corff ei gadw i ariannu gweithgarwch ychwanegol yn y llythyr cyllido. Os disgwylir i gyfanswm yr incwm fod yn fwy na'r terfyn hwnnw, dylai'r Corff drafod â'r Tîm Partneriaeth a cheisio cymeradwyaeth Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru.

9.8 Efallai y cyfyngir ar y defnydd y gellir ei wneud o fathau penodol o incwm megis rhoddion, grantiau ar gyfer ymchwil gan sefydliadau nad ydynt yn rhai cyhoeddus neu gymynroddion a roddir i'r Corff. Dylid rheoli'r cyfryw gyllid yn unol â thelerau'r rhodd/grant neu'r gymynrodd. Rhaid iddo gael ei gynnwys o

hyd yn yr incwm a gofnodir gan y Corff a bod yn rhan o derfyn yr incwm y gellir ei gadw.

### *Benthyciadau a Chontractau a roddir gan Llais i Endidau eraill*

9.9 Rhaid i'r Corff gymryd camau i arfarnu sefyllfa ariannol yr endid sy'n derbyn, e.e. drwy adolygu datganiadau ariannol a chydymffurfiaeth â chyrff adrodd statudol a chynnal gwiriadau ag asiantaethau gwirio credyd.

9.10 Ni all Llais ymuno â chynlluniau benthyca na benthyg arian.

## 10. Cymorth Grant a Rheoli Arian Parod

10.1 Cymorth grant yw'r arian parod sy'n daladwy gan Lywodraeth Cymru i'r Corff ym mhob blwyddyn er mwyn talu am ei weithrediadau ac mae'n annibynnol ar ffigurau'r gyllideb, er ei fod yn deillio ohonynt. Nid yw'n cynnwys dibrisiant nac unrhyw ddarpariaeth gyllidebol a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer defnydd y Corff o'i gronfeydd arian parod wrth gefn ei hun.

10.2 Fel arfer, telir y cymorth grant mewn rhandaliadau chwarterol ar sail ceisiadau ysgrifenedig sy'n dangos tystiolaeth o'r arian parod sydd ei angen a gan unigolyn sydd wedi'i awdurdodi i wneud hynny. Bydd y Corff yn cydymffurfio â'r egwyddor gyffredinol na wneir unrhyw daliad cyn bod angen. Cedwir balansau arian parod a gronnir yn ystod y flwyddyn o gymorth grant neu gronfeydd eraill mor isel â phosibl yn gyson â gweithrediad effeithlon y Corff. Bydd cymorth grant nas hawlir erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn peidio â bod ar gael. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth berthnasol yn y Cynnig Cyllidebol, os caiff cymorth grant ei ohirio er mwyn osgoi balansau arian parod gormodol ar ddiwedd y flwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu, yn y flwyddyn ariannol nesaf, unrhyw gymorth grant sydd ei angen er mwyn talu unrhyw rwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn, megis credydwyr.

10.3 Bydd y Corff, o leiaf, yn parhau i roi gwybodaeth reolaidd i Lywodraeth Cymru drwy ei hawliadau cymorth grant, a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro'r canlynol yn llwyddiannus:

- y ffordd y mae'r Corff yn rheoli arian parod;
- y cymorth grant y mae'n ei hawlio;
- yr alldro adnoddau rhagamcanol yn ôl penawdau adnoddau;
- data eraill sydd eu hangen ar gyfer systemau adrodd Trysorlys EF.

### *Balansau Arian Parod*

*Yn Ystod y Flwyddyn*

10.4 Rhaid cadw balansau arian parod a gronnir yn ystod y flwyddyn mor isel â phosibl yn gyson â gweithrediad effeithlon y Corff.

10.5 Rhaid i'r Corff geisio osgoi dal balans gweithredol sy'n fwy na'r hyn sy'n cyfateb i 4 y cant o'i gyllideb cymorth grant blynyddol pan gaiff pob rhandaliad o gymorth grant. Bydd angen i unrhyw gyllid sy'n fwy na'r swm a ddelir gan y Corff fel balans gweithredol ar ddiwedd pob cyfnod cyllido, gael ei gymeradwyo gan Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, drwy'r Tîm Partneriaeth, a chael ei ystyried wrth benderfynu faint arian parod a gaiff ei dalu yn y cyfnod canlynol.

*Diwedd y Flwyddyn*

10.6 Caniateir i'r Corff gario drosodd o un flwyddyn ariannol i'r nesaf unrhyw falansau arian parod a hawliwyd ond nas gwariwyd hyd at 2 y cant o'i gyllideb cymorth grant blynyddol. Rhaid i unrhyw gynnig i gario symiau sy'n fwy na'r swm hwn drosodd gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, drwy'r Tîm Partneriaeth, fesul achos. Rhaid i unrhyw swm a gaiff ei gario drosodd sy'n fwy na'r swm y cytunwyd arno gael ei ystyried yng nghymorth grant y flwyddyn ganlynol.

### *Llog a Enillir ar Falansau Arian Parod a Balansau Banc*

10.7 Rhaid i'r holl log, yn glir o unrhyw daliadau banc, a enillir gan y Corff ar ei falansau arian parod a'i falansau banc gael ei ddatgan ym mhob cyfnod hawlio ar ffurflen hawlio'r Corff a chael ei ildio i Drysorlys EF drwy Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

## 11. Darbodusrwydd, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

### *Y Sail Dystiolaeth*

11.1 Er mwyn sicrhau gwerth am arian, rhaid bod gan y Corff systemau priodol, a'r adnoddau, er mwyn sicrhau bod ei bolisïau a'i raglenni yn seiliedig ar dystiolaeth o ran y ffordd y cawsant eu datblygu a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith a'u gwerthuso.

### ***Adolygiad wedi'i Deilwr**a*

11.2 Bydd y Tîm Partneriaeth yn ystyried bob blwyddyn, neu yn achos corff newydd ar adeg pan fydd wedi ymgyfarwyddo â phatrwm gwaith rheolaidd, yr angen i gynnal Adolygiad wedi'i Deilwra o'r Corff, a fydd yn seiliedig ar y fframwaith risg ac yn gymesur â maint y sefydliad. Cynhelir adolygiadau o leiaf unwaith bob pum (5) mlynedd a chaiff y Corff ei hysbysu ymlaen llaw y bydd adolygiad yn cael ei gynnal. Diben yr adolygiad yw rhoi sicrwydd i'r Gweinidog fod y Corff yn

dal i fod yn addas at y diben. Bydd yr adolygiad yn ystyried cryfderau a gwendidau'r Corff ac a allai gyflawni ei swyddogaethau yn fwy effeithiol ac effeithlon, gan gynnwys nodi'r potensial i wneud arbedion effeithlonrwydd a, lle y bo'n briodol, ei allu i gyfrannu at dwf economaidd. Bydd hefyd yn ystyried y trefniadau rheoli a llywodraethu sydd ar waith er mwyn sicrhau bod y sefydliad a'i Dîm Partneriaeth yn cydymffurfio ag egwyddorion cydnabyddedig llywodraethu da.

| |
|---|
| Cymeradwywyd telerau'r Ddogfen Fframwaith hon gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar [nodwch y dyddiad].<br><br>Llofnodwyd………………………………………………… Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru<br><br>Dyddiedig………………………………………………….<br><br>Llofnodwyd…………………………………………………Prif Weithredwr Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru (yn gweithredu fel Llais – Eich llais mewn iechyd a gofal/Llais – Your voice in health and social care)<br><br>Dyddiedig…………………………………………………. |

## Atodiad A

### *Dirprwyaethau*

**Trefniadau Galw i Mewn Cyrff Cyhoeddus – Trefniadau Cymeradwyo, Rhaghysbysu a Hysbysu.**

1. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus a Phrif Weinidog Cymru wedi cytuno ar drefniadau trosiannol i roi sicrwydd iddo ef a'r Ysgrifennydd Parhaol nad yw dileu'r gweithdrefnau galw i mewn â Chyrff Hyd Braich yn peri unrhyw risg i Lywodraeth Cymru nac i'r broses o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu yn effeithiol. Diben y trefniadau yw rhoi data sylfaenol i Lywodraeth Cymru y gall eu defnyddio i asesu nifer y materion lle mae cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo a bod yn ymwybodol o'r dull gweithredu y mae pob corff yn ei fabwysiadu mewn perthynas â'r trefniadau newydd.

2. Bwriedir i'r trefniadau sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y ffordd y mae'r broses newydd yn gweithio yn ymarferol, yn hytrach na pharhau â mecanwaith ar gyfer cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

3. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus a Phrif Weinidog Cymru wedi cytuno y caiff trefniadau ***Cymeradwyo, Rhaghysbysu a Hysbysu*** eu rhoi ar waith ar gyfer penderfyniadau a oedd yn destun trefniadau galw i mewn yn flaenorol.

4. Bydd Swyddog Cyfrifyddu mewn Cyrff Cyhoeddus yn atebol am y penderfyniadau y mae'n ofynnol rhoi gwybod amdanynt. Caiff Llywodraeth Cymru roi cyngor ar faterion y mae angen rhoi gwybod amdanynt ymlaen llaw, fel y nodir yn Nhabl B, ond, yn y pen draw, Prif Weithredwr Cymru sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad. Os bydd y Corff yn penderfynu anwybyddu cyngor Llywodraeth Cymru, bydd y Tîm Partneriaeth yn argymell i'r Gweinidog y dylid cynnal trafodaeth â'r Cadeirydd gyda'r Gweinidog yn cadw'r hawl i ddiystyru penderfyniad sy'n perthyn i'r categori hwn os bydd y Corff wedi penderfynu diystyru cyngor Llywodraeth Cymru, a hynny am reswm na ellir ei gyfiawnhau.

5. Yr eithriadau fydd y penderfyniadau a geir yn Nhabl A pan mai Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am y penderfyniad.

***Tabl A     Cymeradwyaethau***

| **Penderfyniad** | **Cymeradwyo** |
|---|---|
| Penodi Prif Weithredwr | Y Gweinidog |
| Tymor Cynllun Busnes y Llywodraeth | Y Gweinidog |
| Yn achos Cyrff Cyhoeddus yr ystyrir eu bod yn sefydliadau Llywodraeth ganol at ddibenion cyfrifyddu:<br>a) Arian parod a gaiff ei gario drosodd yn ystod y flwyddyn sy'n fwy na 4% o gyfanswm y Cymorth Grant/ Arian Parod<br>b) Arian parod a gaiff ei gario drosodd ar ddiwedd y flwyddyn sy'n fwy na 2% o gyfanswm y Cymorth Grant/ Arian Parod<br>c) Sefydlu is-gwmnïau/cyd-fentrau newydd<br>d) Unrhyw fenthyciadau, gwarantau, indemniad neu fuddsoddiad sy'n ymwneud ag arian cyhoeddus<br>e) Cadw incwm sy'n fwy na'r hyn a nodir yn y llythyr cyllido. | Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru |
| Unrhyw benderfyniad y nodir mewn deddfwriaeth fod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar ei gyfer | Y Gweinidog |
| Trefniadau ar gyfer dileu swyddi yn unol â'r darpariaethau yn Adran 16: Tâl Dileu Swydd (Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) yn Llawlyfr Telerau ac Amodau'r GIG | Pennaeth Cyflogau a Chydnabyddiaeth a fydd yn ceisio cyngor y Gweinidog fel y bo'n briodol. |

***Tabl B Trefniadau Rhaghysbysu***

Dylai Prif Swyddogion Gweithredol hysbysu eu Tîm Partneriaeth am unrhyw benderfyniadau arfaethedig sy'n perthyn i'r categorïau canlynol pan fyddant yn codi er mwyn i Lywodraeth Cymru roi cyngor priodol. Bydd Timau Partneriaeth yn ceisio ymateb, hyd y gellir, o fewn pythefnos. Os bydd y Corff yn penderfynu anwybyddu cyngor Llywodraeth Cymru, caiff y Tîm Partneriaeth uwchgyfeirio'r mater at y Gweinidog sy'n cadw'r hawl i ddiystyru penderfyniad a wneir gan Gorff Cyhoeddus y penderfynir, ar ôl trafod, na ellir ei gyfiawnhau.

Dylai'r penderfyniadau hyn hefyd fod yn rhan o drafodaeth ‘cymryd stoc’ mewn cyfarfodydd monitro chwarterol:

| Penderfyniad | Cam Rhaghysbysu | Cyngor Pellach |
|---|---|---|
| Cynigion newydd neu ddadleuol neu gynigion y gallai fod iddynt sgil-effeithiau yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru gan gynnwys, ymhlith eraill, gynigion:<br>• sy'n arfer ansafonol<br>• sy'n wleidyddol sensitif a/neu sy'n debygol o gael sylw negyddol yn y cyfryngau<br>• a allai gael canlyniadau annymunol ar gyfer y sefydliad a/neu'r sector cyhoeddus ehangach | Y Tîm Partneriaeth, ar y cyd â'r timau polisi priodol, i baratoi cyngor i'w drafod â'r Uned Cyrff Cyhoeddus, a fydd yn ceisio cyngor ysgrifenedig gan y Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol ac unrhyw Gorff arall sy'n arbenigo yn y maes hwn. | Y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a'r Gweinidog, fel y bo'n briodol |
| Unrhyw gam gweithredu y mae'r Bwrdd o'r farn y byddai'n mynd yn groes i egwyddorion rheoleidd- | Y Tîm Partneriaeth i baratoi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol | Y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol |

| | | |
|---|---|---|
| dra, priodoldeb, gweinyddu darbodus, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac y mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi cynghori na ddylid ei gymryd. | | |
| Newid mewn polisïau neu arferion y mae iddo oblygiadau ariannol eang | Y Tîm Partneriaeth i baratoi cyngor i'r Pennaeth Rheolaeth Gyllidebol gyda chopi ohono yn cael ei anfon i'r Uned Cyrff Cyhoeddus | Y Gweinidog, fel y bo'n briodol |
| Cydnabyddiaeth staff a thelerau ac amodau | Y Tîm Partneriaeth i gyflwyno cynigion i Bennaeth Cyflogau a Chydnabyddiaeth, yr Uned Cyrff Cyhoeddus, ar y canlynol:<br>• newidiadau nas cwmpesir gan egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogau yn y sector cyhoeddus;<br>• newidiadau i strwythur sefydliad sy'n debygol o arwain at ddiswyddiadau | Y Gweinidog, fel y bo'n briodol |
| Unrhyw beth a allai effeithio ar lefel yr adnoddau y bydd eu hangen yn y dyfodol, e.e. pwysau cyllidebol posibl neu danwariannau | Y Tîm Partneriaeth i'w ystyried | Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, fel y bo'n briodol |

***Trefniadau Hysbysu Eraill***

Yn ystod y cyfnod pontio, dylai Prif Swyddogion Gweithredol hysbysu timau partneriaeth yn eu cyfarfodydd monitro chwarterol am unrhyw benderfyniadau y maent wedi'u gwneud neu y maent yn debygol o'u gwneud yn ystod y chwarter nesaf a fyddai wedi cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru yn y gorffennol.

## Atodiad B

### *Amserlen Proses Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth*

# Amserlen Proses Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth

**New Government formed and Programme for Government set.**

- Remit and business plans in place on the election of a new Government roll forward while the new administration develops its own Programme for Government.
- Partnership team (formerly sponsor team) works with public body to:
  - produce high-level, strategic objectives (term of Government objectives) for following year. These should be fully aligned with the existing Programme for Government for ministerial approval
  - establish a framework agreement to set out the framework within which the public body operates, details the terms and conditions under which the Welsh Ministers may provide resources to the body, and defines the roles and responsibilities of the Welsh Ministers and the public body as well as the relationship between them.

**Within 3 months of PfG being set**

Framework agreement and Term of Government remit letter confirming term of Government objectives issued to public body. Public Bodies Unit to check documents for compliance prior to issue.

Public body begins development of term of Government business plan setting out how it will achieve its strategic objectives. The body will also be required to set out the key risks to delivery of objectives in order to inform oversight arrangements. The content of the business plan will need to remain relatively high level, as budgets will continue to be confirmed on an annual basis. Indicative funding will be provided where possible but it will be made clear that funding could decrease or increase according to Government priorities, changes to ministerial portfolios, Budget fluctuations, or the raising of a concern over the efficiency and/or effectiveness of the public body. The public body may be required to model different options for activity dependent on the funding available.

**Within 2 months of issue of remit letter**

Public body to submit term of Government business plan for Ministerial approval.

Partnership team and public body to agree oversight arrangements based on assessment of risk to successful delivery of objectives and the governance arrangements in place to mitigate those risks.

**Annual**

- Chair to meet the Minister at least once during the year to discuss performance and progress.
- Partnership team to consider the need for a Tailored Review of the public body, based on risk framework.
- Confirmation of funding details for following year issued to public body on publication of Final Budget.
- Public body develops annual operational plan showing level of service to be delivered once funding confirmed.

**Every April**

Public body to produce an annual report outlining the body's main activities and performance during the previous financial year.

**Every July**

Adolygiad blynyddol o drefniadau goruchwylio seiliedig ar risg.

## Atodiad C

### *Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu*

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Swyddog Cyfrifyddu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru (y cyfeirir ato yn ôl ei enw gweithredol, Llais)**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r Memorandwm hwn yn nodi cyfrifoldebau uwch-swyddog (fel arfer y Prif Weithredwr neu swyddog cyfatebol) un o gyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru sydd wedi'i ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu. Mae ei gynnwys hefyd yn gymwys i uwch-swyddogion cyrff cyhoeddus nad oes Swyddog Cyfrifyddu wedi'i ddynodi ar eu cyfer. Nid yw'n gymwys i uwch-swyddogion Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (megis Tribiwnlysoedd a Chyrff Cynghori) sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (yn hytrach na chael eu hariannu drwy grant neu gymorth grant), y mae Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru, felly, yn atebol amdanynt.

2. Ariennir cyrff cyhoeddus mewn sawl ffordd, er enghraifft drwy gymorth grant, grant, incwm o ffioedd a thaliadau neu arian o'r sector preifat. Caiff Swyddog Cyfrifyddu ei ddynodi ar gyfer y cyrff hynny a ariennir gan grant neu gymorth grant mawr neu pan fydd cyfrifon y corff yn cael eu gosod gerbron y Senedd. Pan fydd hynny er budd atebolrwydd cyhoeddus, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dynodi Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer corff sy'n cael ei gyllid o ffynonellau eraill yn bennaf. Mae'n egwyddor bwysig, waeth beth fo ffynhonnell y cyllid, fod Swyddogion Cyfrifyddu yn atebol i Senedd y DU a Senedd Cymru am yr holl adnoddau a reolir ganddynt.

3. Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru, a ddynodwyd yn unol ag Adran 129 (6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), sy'n gyfrifol am sicrhau y penodir Swyddogion Cyfrifyddu priodol i gyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn ei dro, wedi dirprwyo i'w Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol (a ddynodwyd o dan Adran 133 (2) o Ddeddf 2006) gyfrifoldeb am ddynodi uwch-swyddogion cyrff y mae eu Cyfarwyddiaethau yn eu goruchwylio yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol.

**Cyfrifoldebau Cyffredinol Swyddog Cyfrifyddu'r Corff Hyd Braich**

1. Mae'r penderfyniad i'ch dynodi'n Swyddog Cyfrifyddu yn adlewyrchu'r ffaith, o dan y Bwrdd (p'un a ydych yn aelod o'r Bwrdd ai peidio), bod gennych gyfrifoldeb cyffredinol am drefnu, rheoli a staffio'r corff ac am ei weithdrefnau

mewn materion ariannol a materion eraill.

2. Rhaid i chi sicrhau bod trefniadau rheoli ariannol o safon uchel ar waith yn y corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn gyffredinol; bod systemau a gweithdrefnau ariannol yn helpu i gynnal busnes mewn modd effeithlon a darbodus ac yn diogelu priodoldeb rheoleidd-dra ariannol ym mhob rhan o'r corff; ac y rhoddir sylw llawn i ystyriaethau ariannol, gan gynnwys dichonoldeb a chynaliadwyedd, mewn penderfyniadau ar gynigion polisi.

**Cyfrifoldebau Penodol Swyddog Cyfrifyddu'r Corff**

3. Hanfod rôl y Swyddog Cyfrifyddu yw cyfrifoldeb personol am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus rydych yn atebol amdano; am gadw cyfrifon priodol; am weinyddu'n ddarbodus; am osgoi gwastraff ac afradlondeb; ac am ddefnyddio adnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol.

4. Fel y Swyddog Cyfrifyddu rhaid i chi wneud y canlynol:

   a. sicrhau y cynhelir system rheolaeth fewnol gadarn yn eich sefydliad er mwyn helpu i gyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion a dylech adolygu effeithiolrwydd y system yn rheolaidd;

   b. sicrhau bod yr adnoddau rydych yn gyfrifol amdanynt yn cael eu rheoli'n briodol ac yn dda (gweler paragraff 8 isod) a'u diogelu, gydag archwiliadau annibynnol ac effeithiol o falansau arian parod sydd yn nwylo unrhyw swyddog;

   c. sicrhau bod asedau rydych yn gyfrifol amdanynt, megis tir, adeiladau neu eiddo arall, gan gynnwys storfeydd a chyfarpar, yn cael eu rheoli a'u diogelu yr un mor ofalus, a gydag archwiliadau fel y bo'n briodol;

   d. wrth ystyried cynigion polisi sy'n ymwneud â'r gwariant neu'r incwm rydych yn gyfrifol amdano, sicrhau y rhoddir sylw llawn i'r holl ystyriaethau ariannol, gan gynnwys dichonoldeb a chynaliadwyedd, ac y caiff gwerth am arian y cynnig ei asesu yn unol â'r egwyddorion a nodir yng nghanllawiau Trysorlys EF, “The Green Book: *Appraisal and Evaluation in Central Government*”; y rhoddir ystyriaeth lawn i unrhyw faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra; ac y defnyddir technegau rheoli rhaglenni a phrosiectau o ansawdd da fel y bo'n briodol i olrhain cynnydd a, lle y bo angen, addasu cynnydd. Lle y bo angen, dylai unrhyw ystyriaethau o'r fath gael eu dwyn i sylw'r Bwrdd;

   e sicrhau y nodir risgiau (p'un a ydynt yn gysylltiedig â chyflawni amcanion busnes, rheoleidd-dra a phriodoldeb neu werth am arian), yr asesir eu difrifoldeb ac y rhoddir systemau priodol ar waith i'w rheoli;

f sicrhau bod eich dull o reoli cyfleoedd a risg yn cyflawni'r cydbwysedd cywir sy'n gymesur â busnes eich sefydliad a'ch parodrwydd i dderbyn risg;

g sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer mynd i'r afael â thwyll ac y cydymffurfir â gweithdrefnau ar gyfer delio ag achosion a amheuir;

h sicrhau bod eich sefydliad yn cydymffurfio â gofynion y Ddogfen Fframwaith.

5. Dylech hefyd sicrhau bod rheolwyr ar bob lefel:

a yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u hamcanion a bod ganddynt yr adnoddau i asesu a, lle y bo'n bosibl, fesur allbynnau neu berfformiad mewn perthynas â'r amcanion hynny;

b yn cael cyfrifoldebau clir am wneud y defnydd gorau o adnoddau (sef y rhai a ddefnyddir ar orchymyn y rheolwyr eu hunain ac unrhyw adnoddau a ddarperir i sefydliadau neu unigolion y tu allan i'r corff), gan gynnwys craffu'n feirniadol ar allbwn a gwerth am arian;

c yn cael yr wybodaeth (yn enwedig am gostau), yr hyfforddiant a'r cyngor arbenigol sydd eu hangen arnynt i arfer eu cyfrifoldebau yn effeithiol.

d. rhaid i chi wneud yn siŵr bod eu trefniadau ar gyfer dirprwyo yn hyrwyddo rheolaeth dda a'u bod yn cael eu cefnogi gan y staff angenrheidiol sy'n meddu ar y cydbwysedd priodol o sgiliau. Dylai trefniadau ar gyfer archwilio mewnol gyd-fynd â'r amcanion, y safonau a'r arferion a nodir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

6. Ni ddylai fod unrhyw amheuaeth nad yw'r Swyddog Cyfrifyddu yn cyrraedd y safonau uchaf o ran priodoldeb heb deyrngarwch rhanedig. Rhaid i achosion posibl o wrthdaro buddiannau gael eu rheoli'n effeithiol ac yn unol â'r canllawiau a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

**Atebolrwydd i'r Senedd**

7. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rydych yn atebol i'r Senedd am y canlynol:

- sicrhau safonau uchel o briodoldeb o ran rheoli arian cyhoeddus yn eich sefydliad. Byddwch yn adrodd ar hyn yn eich Datganiad Llywodraethu wedi'i lofnodi, a fydd yn rhan o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.
- sicrhau y caiff gweithdrefnau ariannol priodol eu dilyn ac y cedwir cofnodion cyfrifyddu ar ffurf sy'n gweddu i ofynion gweithgarwch rheoli yn ogystal ag ar y ffurf a ragnodir ar gyfer cyfrifon cyhoeddedig.

- llofnodi'r cyfrifon a bennir i chi ac, wrth wneud hynny, dderbyn cyfrifoldeb personol am eu cyflwyno'n briodol fel y rhagnodir mewn deddfwriaeth, y cyfarwyddyd cyfrifon a chanllawiau perthnasol;
- llofnodi datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu i'w gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon;
- rhoi tystiolaeth, gan gynnwys mynd i wrandawiadau, ar faterion sy'n ymwneud â'r Corff sy'n codi gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, pwyllgorau eraill y Senedd, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin neu Bwyllgorau Seneddol eraill, er mwyn cyfrif am y ffordd y mae'r Corff yn gwarchod arian cyhoeddus;
- ymateb i unrhyw argymhellion gan y pwyllgorau hynny a wneir yn uniongyrchol i'r Corff a gweithredu ar unrhyw argymhellion sydd wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru.

**Ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin**

8. Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru ac, o dan rai amgylchiadau, y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, gynnal archwiliadau i ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae eich sefydliad wedi defnyddio ei adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, gallwch ddisgwyl cael eich galw i ymddangos gerbron y Pwyllgor priodol o bryd i'w gilydd, fel arfer gyda'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol neu, o bosibl, gyda'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, er mwyn rhoi tystiolaeth ar yr adroddiadau sy'n deillio o'r archwiliadau hyn ac ateb cwestiynau'r Pwyllgorau am eich Adroddiad Blynyddol a'ch Cyfrifon.

9. Caiff Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ofyn i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd gymryd tystiolaeth ar ei ran ac adrodd yn ôl iddo ar y dystiolaeth a gafwyd. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, gallwch gael eich cefnogi gan swyddogion eraill, a gaiff ymuno â chi i roi'r dystiolaeth. Wrth roi tystiolaeth, disgwylir i chi roi i'r naill Bwyllgor neu'r llall esboniadau o unrhyw arwyddion o wendid yn y materion yr ymdrinnir â nhw ym mharagraffu 4-9 uchod, y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru neu'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol wedi tynnu eu sylw atynt neu y byddant, o bosibl, am eich holi amdanynt.

10. Yn ymarferol, fel arfer bydd Swyddog Cyfrifyddu wedi dirprwyo awdurdod yn eang ond ni all wadu cyfrifoldeb ar y sail honno. Ac ni fydd y Swyddog Cyfrifyddu cyfredol, drwy gonfensiwn, yn gwrthod ateb cwestiynau am bethau a ddigwyddodd cyn iddo gael ei benodi i'r swydd. Gellir disgwyl i'r Pwyllgorau beidio â mynnu bod gan y Swyddog Cyfrifyddu cyfredol gyfrifoldeb personol o

dan y fath amgylchiadau.

11. Rhoddir pwys mawr ar gywirdeb tystiolaeth a chyfrifoldeb tystion i sicrhau hynny. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, dylech sicrhau eich bod yn cael eich briffio'n ddigonol ac yn gywir am faterion sy'n debygol o godi yn ystod y cyfarfod. Gellir gofyn i'r Pwyllgorau am ganiatâd i ddarparu gwybodaeth nad oes ganddo ar y pryd drwy gyflwyno nodyn yn ddiweddarach. Os ceir, ar ôl hynny, fod y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgorau yn cynnwys gwallau, dylid hysbysu'r Pwyllgorau amdanynt cyn gynted â phosibl.

12. Ar y cyfan, mae'r rheolau a'r confensiynau sy'n llywodraethu ymddangosiadau swyddogion gerbron Pwyllgorau Seneddol yn gymwys i'r Pwyllgorau hyn, gan gynnwys y confensiwn cyffredinol na fydd swyddogion yn datgelu cyngor y maent wedi'i roi i'r Bwrdd. Serch hynny, mewn achos lle y rhoddwyd cyfarwyddyd ynglŷn â mater yn ymwneud â phriodoldeb neu reoleidd-dra, byddai cyngor y Swyddog Cyfrifyddu, a phenderfyniad y Bwrdd i'w ddiystyru, yn cael eu datgelu.

13. Mewn achos lle y diystyrwyd cyngor Swyddog Cyfrifyddu mewn mater yn ymwneud â gwerth am arian neu ddichonoldeb (yn hytrach na rheoleidd-dra neu briodoldeb), bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru neu'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol wedi egluro i'r Pwyllgor perthnasol bod cyngor y Swyddog Cyfrifyddu wedi cael ei ddiystyru. Fodd bynnag, dylech osgoi datgelu'r cyngor a roddwyd neu ddatgysylltu eich hun oddi wrth y penderfyniad. Yn amodol ar gytundeb y Bwrdd, lle y bo hynny'n briodol, dylech fod yn barod i esbonio'r cyfryw benderfyniad a gallwch gael eich galw i fodloni'r Pwyllgor bod yr holl ystyriaethau ariannol perthnasol wedi'u dwyn i sylw'r Bwrdd cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Yna, y Pwyllgor fydd yn gyfrifol am fynd ar drywydd y mater gyda'r Bwrdd os bydd am wneud hynny.

**Absenoldeb Swyddog Cyfrifyddu**

14. Dylai Swyddog Cyfrifyddu sicrhau ei fod ar gael, fel arfer, er mwyn ymgynghori ag ef ac, yn ystod unrhyw gyfnod dros dro pan na fydd ar gael oherwydd salwch neu achos arall, neu yn ystod cyfnodau arferol o wyliau blynyddol, y bydd uwch-swyddog yn y sefydliad a all weithredu ar ei ran os bydd angen.

15. Os bydd swydd y Prif Weithredwr (neu swyddog cyfatebol) yn wag neu os daw'n amlwg bod y Swyddog Cyfrifyddu yn analluog ac na all gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, dylid hysbysu'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol er mwyn i Swyddog Cyfrifyddu dros dro gael ei ddynodi'n ffurfiol, tra'n aros i'r Swyddog Cyfrifyddu ddychwelyd neu i Swyddog Cyfrifyddu newydd gael ei benodi.

16. Gellir disgwyl i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ohirio gwrandawiad os bydd y Swyddog Cyfrifyddu perthnasol yn anhwylus. Os na all y Swyddog Cyfrifyddu lofnodi'r cyfrifon mewn pryd i'w cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru, a hynny am ei fod yn analluog neu'n absennol, gellir cyflwyno copïau heb eu llofnodi tra'n aros i'r Swyddog Cyfrifyddu ddychwelyd. Os na all y Swyddog Cyfrifyddu lofnodi'r cyfrifon mewn pryd i'w hargraffu, dylai'r Swyddog Cyfrifyddu dros dro eu llofnodi yn ei le.

**Atebolrwydd i'r Bwrdd**

17. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn tynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw wrthdaro rhwng ei gyfarwyddiadau ef a'ch dyletswyddau chi fel y Swyddog Cyfrifyddu. Ni all dderbyn nodau na pholisïau'r Bwrdd heb eu harchwilio. Nid oes un dull penodol o gofrestru gwrthwynebiadau, er y dylai nodi union natur y gwrthwynebiadau hynny. Y prawf allweddol yw a allech gyfiawnhau'r gweithgaredd arfaethedig pe gofynnid i chi ei amddiffyn

18. Er gwaethaf eich cyngor, os bydd y Bwrdd yn penderfynu parhau â cham gweithredu rydych wedi'i gynghori i beidio â'i gymryd, dylech ofyn i'r Bwrdd am gyfarwyddyd ffurfiol i fwrw ymlaen, gan nodi'r posibilrwydd y bydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd yn cynnal ymchwiliad. Mae cyfarwyddiadau o'r fath yn anghyffredin. Isod, rhoddir enghreifftiau o achosion lle mae'r weithdrefn hon yn briodol:

- **Rheoleidd-dra** – os bydd cynnig y tu allan i bwerau cyfreithiol eich sefydliad, cydsyniadau Senedd Cymru neu Senedd y DU neu ddirprwyaethau Llywodraeth Cymru neu os na fydd yn cyd-fynd â chyllidebau gwariant y cytunwyd arnynt;
- **Priodoldeb** – petai cynnig yn mynd yn groes i weithdrefnau rheoli neu ddisgwyliadau Senedd Cymru neu Senedd y DU;
- **Gwerth am Arian** – petai cynnig amgen, neu wneud dim, yn cynnig gwerth gwell am arian, er enghraifft: canlyniad rhatach, o ansawdd uwch neu fwy effeithiol;
- **Dichonoldeb –** os bydd cryn amheuaeth a ellir rhoi'r cynnig ar waith yn gywir, yn gynaliadwy neu'n unol â'r amserlen fwriadedig.

19. Pan roddir cyfarwyddyd, rhaid i chi wneud y canlynol:

- Dilyn cyfarwyddyd y Bwrdd ar unwaith;
- Anfon copi o'r papurau perthnasol at Archwilydd Cyffredinol Cymru a'ch tîm partneriaeth, a fydd yn dwyn y mater i sylw Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru. Fel arfer, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dwyn y mater i sylw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Ar yr amod eich bod wedi dilyn y weithdrefn hon, gellir

disgwyl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gydnabod nad oes gennych chi, yn eich rôl fel y Swyddog Cyfrifyddu, unrhyw gyfrifoldeb personol am y trafodiad. Rhaid i chi drefnu i fodolaeth y cyfarwyddyd gael ei chyhoeddi yn yr adroddiad a'r cyfrifon, oni bai bod yn rhaid i'r mater gael ei gadw'n gyfrinachol;

- Os gofynnir i chi wneud hynny, er enghraifft yn ystod gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, esbonio'r hyn y mae'r Bwrdd wedi'i wneud. Mae hyn yn parchu hawliau'r Bwrdd i gyngor gonest, gan ddiogelu ansawdd trafodaeth fewnol ar yr un pryd.

**Atebolrwydd i'r Tîm Partneriaeth**

20. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rydych yn atebol i'r tîm partneriaeth am y canlynol:

- rhoi gwybod am benderfyniadau pwysig neu arwyddocaol, yn unol â chanllawiau a nodir yn y Ddogfen Fframwaith;
- darparu ffynonellau o dystiolaeth er mwyn i'r tîm partneriaeth allu penderfynu ar drefniadau goruchwylio priodol;
- sicrhau presenoldeb a chyfranogiad effeithiol mewn cyfarfodydd monitro a bod rhagolygon amserol a gwybodaeth fonitro am berfformiad a chyllid yn cael eu darparu i'r tîm partneriaeth;
- sicrhau y caiff y tîm partneriaeth ei hysbysu am broblemau sylweddol cyn gynted â phosibl;
- rhoi i'r tîm partneriaeth y cyfryw wybodaeth am ei pherfformiad a'i gwariant ag y gall tîm partneriaeth yn rhesymol ofyn amdani.

**Gweithio mewn Partneriaeth**

21. Yn fwyfwy, mae cyrff cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill er mwyn cyflawni eu nodau a'u hamcanion strategol. Dylech sicrhau bod effaith ehangach y gweithgareddau rydych yn gyfrifol amdanynt yn cael eu nodi'n gywir a, lle y bo'n briodol, eu hystyried cyn mynd ymlaen. Caiff eich sefydliad gyfrannu at weithgaredd cydgysylltiedig a arweinir gan sefydliad arall (p'un a yw yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat) er mwyn cyflawni ei amcanion.

22. Gellir ystyried bod y cyfryw gyfraniad yn briodol hyd yn oed pe na byddai'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni amcanion ehangach eich sefydliad. O dan y fath amgylchiadau, bydd angen i chi ddangos bod y cyfranogiad yn cynnig gwerth da am arian yn gyffredinol a bod rheolaethau priodol ar waith er mwyn diogelu priodoldeb a sicrhau atebolrwydd priodol.

23. Gall Swyddogion Cyfrifyddu gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am ddarparu gwasanaethau drwy drefniadau gweithio cydgysylltiedig. Os byddwch chi a Swyddog Cyfrifyddu arall yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd, bydd angen dogfennu'r llinellau cyfrifoldeb yn glir er mwyn sicrhau eglurder llwyr o ran yr hyn y mae pob un ohonoch yn gyfrifol ac yn atebol amdano.

**Rheoleidd-dra a Phriodoldeb Gwariant**

24. Mae gennych gyfrifoldeb penodol am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Senedd Cymru a Senedd y DU o ran rheoli gwariant ac unrhyw ofynion a osodir gan y tîm partneriaeth. Mae'n ofyniad sylfaenol mai dim ond i'r graddau ac at y dibenion a awdurdodir gan Senedd Cymru y dylid defnyddio'r cyllid, ac y dylid tynnu sylw'r Senedd at golledion neu daliadau arbennig, drwy anodi'r cyfrif perthnasol yn briodol.

25. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod cymeradwyaeth benodol ar gyfer gwariant wedi'i chael gan Lywodraeth Cymru ym mhob achos lle mae ei hangen, gan gynnwys achosion sy'n cynnwys cyflog, pensiynau ac amodau gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw wariant nas cwmpesir gan unrhyw awdurdodau a ddirprwywyd gan Lywodraeth Cymru i'r corff. Nid yw awdurdod dirprwyedig yn dileu'r rhwymedigaeth i gyflwyno cynigion newydd neu ddadleuol neu gynigion y gallai fod iddynt sgil-effeithiau, i Lywodraeth Cymru. Chi hefyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod mecanwaith priodol ar waith ar gyfer casglu'r holl incwm a derbyniadau o unrhyw fath rydych yn gyfrifol amdanynt a rhoi cyfrif amdanynt mewn ffordd briodol.